Royal College of Physicians | NACAP



A gawsoch chi asesiad **adsefydlu cleifion yr ysgyfaint** ar gyfer eich **COPD**?

Mae'r gwasanaeth hwn yn rhan o brosiect cenedlaethol i helpu i wella'r gofal i gleifion â COPD.

Yr enw ar y prosiect hwn yw **Rhaglen Genedlaethol Archwilio Asthma a COPD (NACAP).**

O **fis Mawrth 2019**, rydym ni'n gobeithio casglu gwybodaeth am bob claf â COPD a gafodd asesiad ar gyfer adsefydlu cleifion yr ysgyfaint, a'r gofal maen nhw'n ei dderbyn. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth gyfrinachol.

Bydd angen i chi roi caniatâd i'ch data gael ei gynnwys yn yr archwiliad hwn. Fe gewch chi daflen wybodaeth i gleifion a ffurflen ganiatâd gan aelod o dîm adsefydlu cleifion yr ysgyfaint. Rhowch wybod iddyn nhw os nad ydych chi'n dymuno cymryd rhan.

Commissioned by HQIP Healthcare Quality Improvement Partnership

Fersiwn 5.1: 27 Tachwedd 2018